**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref PO/JB/406/2025
Ein cyf/Our ref: WQ97075

21 Awst 2025

Annwyl Siân Gwenllian AC,

Diolch am eich Cwestiwn Ysgrifenedig i'r Senedd (cyf WQ97075). Ymddiheuriadau am beidio ag ateb yn brydlon. Dw i'n ysgrifennu atoch i ddisgrifio safbwynt y Llywodraeth ar y mater.

Mae 'Adeilad Amddifad' yn derm sy'n ymwneud yn unig â Rhaglen Diogelwch Adeiladau Cymru lle mae'r datblygwr wedi rhoi'r gorau i fasnachu, nad yw'n hysbys, neu lle cafodd yr adeilad ei ddatblygu dros 30 mlynedd yn ôl. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwaith diogelwch tân mewn adeiladau amddifad, ond nid yw'n gyfrifol am reoli'r adeilad. Darperir cyllid ar gyfer gwaith adfer i'r Person Cyfrifol, sef fel arfer yr Asiant Rheoli.

O dan ddarpariaethau Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) bydd yr union berson neu endid sy'n cael ei nodi'n berson atebol yn amrywio yn dibynnu ar y model perchnogaeth a rheoli ym mhob adeilad, ond fel arfer perchennog neu landlord yr adeilad, boed gymdeithasol neu breifat, fydd yn gyfrifol. Fodd bynnag, gall perchnogaeth adeilad fod yn gymhleth, ac mewn rhai achosion, gellid nodi Cwmnïau Rheoli Preswylwyr, prif lesddeiliaid, neu eraill fel y person atebol.

Thank you for your Written Senedd Question (ref WQ97075). Please accept my apologies that we were unable to respond by the given deadline. I am writing to you to set out the Government's position on the matter.

An 'Orphan Building' is a term that relates solely to the Welsh Building Safety Programme where the developer has ceased trading, is not known, or the building was developed over 30 years ago. The Welsh Government will fund the fire safety works in orphan buildings, but is not responsible for the management of the building. Funding for remediation works is provided to the Responsible Person, which in most cases will typically be the Managing Agent.

Under the provisions of the Building Safety (Wales) Bill exactly which person or entity is identified as an accountable person will vary depending on the ownership and management model in each building, but typically this will be building owners and landlords, both social and private. However, building ownership can be complex, and in some cases, Resident Management Companies, head lessees, or others could be identified as the accountable person.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,
Yours sincerely,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government